Teitl y Swydd: Swyddog Recriwtio Myfyrwyr

Uned/Ysgol: MCRM

Gradd: 5A/B

HERA: CMSR32

Pwrpas craidd y rôl

Dan arweiniad y Rheolwr Recriwtio Myfyrwyr, byddwch yn canolbwyntio ar swyddogaethau amrywiol gan gynnwys darparu gwybodaeth sylweddol a dadansoddiadau am y farchnad. Sicrhau bod y gweithgareddau mwyaf priodol yn cael eu gwneud drwy ddefnyddio'r sianeli mwyaf effeithiol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

Byddwch hefyd yn trefnu ac yn ymgymryd â gweithgareddaus recriwtio effeithiol gan feithrin perthnasoedd â darpar fyfyrwyr, cyn-ymgeiswyr, ymgeiswyr, a rhanddeiliaid fel athrawon a rhieni. Bydd hyn yn cynnwys teithio ar draws y DU yn cynrychioli'r Brifysgol.

Pwrpas y rôl hon yw gweithredu a chyflawni gweithgareddau recriwtio myfyrwyr, a sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn cyd-fynd â chynllun marchnata, recriwtio a throsi trosfwaol a tharged recriwtio myfyrwyr Met Caerdydd.

Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol

- Creu a rheoli perthnasoedd newydd a phresennol gydag ysgolion bwydo a cholegau o fewn ardal ddaearyddol benodol er mwyn cynyddu ceisiadau i'r brifysgol.

- Dylunio a darparu bwydlen greadigol ac addysgiadol o gyflwyniadau ymwybyddiaeth Addysg Uwch i gynyddu ceisiadau i Brifysgol Metropolitan Caerdydd.

- Cyfrannu'n rhagweithiol i'r cynllun cyfathrebu blynyddol recriwtio myfyrwyr a'i gyflwyno i bob ysgol a choleg yn y DU. Dylunio ac adeiladu cyfres o e-gylchlythyrau hyrwyddol i ysgolion a cholegau i godi ymwybyddiaeth o broffil Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Bod yn gyfrifol am sianeli cyfryngau cymdeithasol y tîm cyswllt ysgolion.

- Dylunio, trefnu a chyflwyno cyfres o ddigwyddiadau recriwtio ac ymwybyddiaeth o addysg uwch ar y campws i gynyddu ceisiadau i Brifysgol Metropolitan Caerdydd yn unol â'r targed twf strategol.

- Cyflwyno cyfres o sesiynau ymwybyddiaeth o Addysg Uwch i fyfyrwyr Blwyddyn 9 i 11 ar y cyd â'r Agenda Ymestyn yn Ehangach a Sioe Deithiol Addysg Uwch.

- Cynrychioli'r brifysgol mewn ffeiriau addysg uwch/nosweithiau rhieni mawr a digwyddiadau sy'n ymwneud â gyrfaoedd mewn ysgolion ledled Cymru a'r DU bob blwyddyn academaidd. Bydd hyn yn golygu gweithio y tu allan i oriau swyddfa arferol. Gall hyn olygu aros dros nos.
- Datblygu cynllun recriwtio wedi'i deilwra i ysgol academaidd yn unol â'r strategaeth recriwtio ganolog. Gweithio gydag ysgol academaidd i greu a chyflwyno sgyrsiau

hyrwyddo llawn gwybodaeth a gweithdai i ddylanwadu ar geisiadau i'r ysgol. Adolygu gweithgaredd penodol yr ysgol o bryd i'w gilydd.

- Trefnu a chyflwyno digwyddiadau recriwtio/blasu ar raddfa fawr ar gyfer yr ysgolion academaidd.

- Cydgysylltu'n rheolaidd ag academyddion i drafod ceisiadau a chynllunio gweithgaredd i hybu ceisiadau. Cydgysylltu'n rheolaidd â'r Tîm Marchnata a Swyddog Marchnata'r Ysgolion i sicrhau ymagwedd gyson at unrhyw weithgarwch marchnata, hyrwyddo a recriwtio myfyrwyr gan fwydo i mewn i'r cynlluniau marchnata gweithredol fel y bo'n briodol.

- Cefnogi cyflwyno Digwyddiadau Recriwtio Myfyrwyr a gweithgareddau megis Diwrnodau Agored, Diwrnodau Ymgeiswyr, Clirio a Recriwtio Ôl-raddedig.

- Cefnogi'r broses recriwtio i recriwtio a hyfforddi llysgenhadon myfyrwyr ar gyfer Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

- Adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Rheolwr Recriwtio Myfyrwyr ar ddeallusrwydd a gasglwyd gan ysgolion a cholegau a thueddiadau sector i helpu i lywio strategaethau wrth symud ymlaen.

Manyleb person

Cymwysterau Hanfodol ac Aelodaeth Broffesiynol

- Addysgwyd i lefel gradd neu gyfwerth.

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Gwybodaeth am y broses Ymgeisio Addysg Uwch (UCAS) a'r llwybrau astudio sydd ar gael i Addysg Uwch a'r cymorth sydd ar gael.
2. Gwybodaeth am bortffolio rhaglenni Met Caerdydd.
3. Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun, heb fawr o oruchwyliaeth.
4. Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar bob lefel.
5. Hyddysg mewn cyfrifiadura – yn fedrus gyda phecynnau Microsoft Office.
6. Profiad mewn rôl sy'n gysylltiedig â marchnata/hyrwyddo.
7. Profiad o wneud cyflwyniadau i grwpiau o wahanol feintiau.
8. Trwydded yrru lawn.
9. Y gallu i ddylunio ac adeiladu e-gylchlythyrau.

Dymunol

1. Profiad o rôl debyg mewn prifysgol.
2. Profiad fel Llysgennad Prifysgol Metropolitan Caerdydd.
3. Cymhwyster Marchnata CIM.

Gofynion sgiliau Cymraeg

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac yn rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau trwy edrych ar ein llyfryn: Sgiliau Cymraeg. Os rhestrir sgil yn hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

Lefel iaith a disgrifydd cyffredinol	Gwrando	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.				
A2 - Defnyddiwr sylfaenol Yn gallu delio â gwybodaeth syml, syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol.				
B1 - Defnyddiwr canolradd Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn Gymraeg am bethau cyfarwydd a/neu waith.				
B2 - Defnyddiwr canolradd uwch Yn gallu mynegi fy hun yn Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs gyda siaradwr brodorol.				
C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.	Dymunol	Dymunol	Dymunol	Dymunol
C2 - Prif ddefnyddiwr Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg.				

Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae'r swydd hon yn gofyn am wiriad manylach o restr gwaharddedig plant y DBS.

Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig; felly, efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a manyleb y person fod yn hollgynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad a'u hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob cyflogai ddangos ei fod yn glynu wrth ein Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob cyflogai roi sylw arbennig i'w gyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.